Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

*Ysgol Plas Coch*
*Stansty Road*
*Wrexham*
*LL11 2BU*
*Tel: 01978 311198*
*Fax: 01978 311198*

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
**Pennaeth *Head Teacher***

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: **www.ysgolplascoch.cymru**

**Eisteddfod yr Urdd 2024**

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Mae'r amser wedi cyrraedd i baratoi ar gyfer eisteddfodau yr Urdd a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y tymor. Er mwyn medru cystadlu, mae'n rhaid i'r disgyblion fod yn aelodau o'r Urdd. Gallwch gofrestru eich plentyn yn aelod drwy'r ddolen isod:

https://www.urdd.cymru/cy/ymuno/

Os yw'ch plentyn wedi bod yn aelod llynedd neu cyn hynny, gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif Porth yr Urdd ac ail ymaelodi yno.

Os hoffech i'ch plentyn gystadlu mewn cystadleuaeth unigol e.e. llefaru neu ganu, bydd angen i chi gofrestru eich plentyn ar gyfer y gystadleuaeth, hefyd drwy Porth yr Urdd. Bydd staff yn yr ysgol yn hyfforddi'r plant ar gyfer y cystadlaethau canlynol (ond bydd angen i rieni eu cofrestru fel nodir uchod):

**Llefaru unigol Bl 2 ac iau: Bl 3 a 4; Bl 5 a 6**
**Canu unigol Bl 2 ac iau: Bl 3 a 4; Bl 5 a 6**

Ar gyfer unrhyw gystadlaethau torfol (e.e. côr, partion, grwp dawnsio), bydd yr ysgol yn gyfrifol am gofrestru i gystadlu, ond bydd angen i rieni sicrhau eu bod yn aelodau o'r Urdd. Byddwn yn mynd ati i ffurfio partion a chôr yn ystod yr wythnos nesaf ac yn gadael i rieni wybod os oes angen ymaelodi eu plant.

Dyma'r dyddiadau cau ar gyfer cofrestru i gystadlu:

**22:01:24 –** Cystadlaethau offerynnol a dawnsio
**05:02:24 –** Cystadlaethau llwyfan (e.e. canu a llefaru)

Dyddiadau a lleoliadau y gwahanol eisteddfodau eleni fydd:

**07:02:24 –** Eisteddfod rhanbarth offerynnol yn Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug
**02:03:24 –** Eisteddfod Gylch (canu a llefaru) yn Ysgol Bro Alun, Gwersyllt
**06:03:24 –** Eisteddfod Ddawns Rhanbarth yn Ysgol Bryn Coch, Yr Wyddgrug
**16:03:24 –** Eisteddfod Rhanbarth (canu a llefaru) yn Theatr y Stiwt, Rhos
**27:05:24-01:06:24 –** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meifod, Powys.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu angen gwybodaeth bellach, cysylltwch efo'r ysgol.